**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

| | |
|---|---|
| **Pwnc: Addysg grefyddol**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 42 o *Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn addysg grefyddol: Canllawiau ychwanegol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/religiouseducation/?skip=1&lang=cy | |
| **Teitl:** Darn o lythyr | **Blwyddyn:** 6 |
| **Disgrifiad:** Anfon gwybodaeth am ŵyl Rosh Hashanah at ffrind. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Esbonio syniadau'n llawn, gan ddangos goblygiadau a chanlyniadau.<br>• Defnyddio nodweddion y ffurf a ddewiswyd, e.e. cyflwyniad effeithiol, cydbwysedd addas a diweddglo cryno. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ymadroddion pwnc penodol.<br>• Cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy. |

Mae gan yr ysgrifennwr wybodaeth a dealltwriaeth amlwg o'r pwnc dan sylw. Mae wedi ysgrifennu llythyr clir mewn Cymraeg naturiol i esbonio nodweddion gŵyl Iddewig at ffrind.

Defnyddir termau penodol a geirfa bwrpasol i'r testun dan sylw, e.e. 'bara cylch' a 'y Torah'. Ychydig o wallau iaith a geir ac mae'r ysgrifennwr ar brydiau yn gallu amrywio dechrau brawddegau, e.e. 'Heddiw . . . ', 'Rydym . . . ' ac 'Efallai . . . '.

Mae'r gwaith ysgrifennu wedi ei drefnu i greu effaith ac mae'n arwain at gasgliad, hynny yw hoffai'r ysgrifennwr ddarllen mwy am Iddewiaeth a'i arferion amrywiol.

**Codi safonau ysgrifennu**

- Golygu, myfyrio a gwella'r gwaith ysgrifennu'n annibynnol.
- Defnyddio paragraffau i strwythuro ystyr ac effaith.
- Treiglo'n gywir, e.e. 'gŵyl ddiddorol', 'blwyddyn felys'.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 WG14632

## Llythrennedd
## Deunyddiau enghreifftiol

<table>
<tr><td colspan="2">Pwnc: Daearyddiaeth<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 62 o Daearyddiaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/geographync/?lang=cy</td></tr>
<tr><td>Teitl: Newidiadau ym Mae Caerdydd</td><td>Blwyddyn: 6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Disgrifiad: Crynhoi gwybodaeth ar ôl edrych ar ffotograffau o'r ardal ddoe a heddiw.</td></tr>
<tr><td>Elfennau</td><td>Datganiadau disgwyliedig</td></tr>
<tr><td>Trefnu syniadau a gwybodaeth</td><td>• Trefnu gwaith ysgrifennu i ddangos pwrpasau clir.<br>• Ymhelaethu ar y prif syniadau rhesymau gwybodaeth ac enghreifftiau cefnogol.</td></tr>
<tr><td>Ysgrifennu'n gywir</td><td>• Dechrau defnyddio ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir.<br>• Sillafu terfyniadau lluosog yn gywir.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae yna ddealltwriaeth amlwg o ofynion y dasg dan sylw. Mae'r gwaith yn dangos trefn gyda help y sgerbwd ysgrifennu. Defnyddir amryw o frawddegau cymhleth yn weddol gywir.<br><br>Ceir ymhelaethu ar ambell syniad drwy nodi rhesymau, e.e. 'Erbyn heddiw mae'r dŵr yn lân oherwydd mae'r bared yn cadw'r dŵr bellach yn y bae.'<br><br>Gall yr ysgrifennwr hefyd negyddu, e.e. 'doedd na ddim/does na ddim', a sillafu terfyniadau lluosog anodd yn gywir, e.e. pryfed, adar, pibau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Codi safonau ysgrifennu</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Defnyddio cymariaethau a phriod-ddulliau o fewn y gwaith ysgrifenedig pan fo'n briodol, e.e. 'gwneud y dŵr yn y bae yn frwnt ac mor ddu a bola buwch'.<br>• Treiglo'n gywir fel rheol, e.e. 'llawer o <u>f</u>rithyll', 'does na <u>dd</u>im'.</td></tr>
</table>

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

| | |
|---|---|
| **Pwnc: Hanes**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 52 o *Hanes: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/historync/?lang=cy | |
| **Teitl:** Nodiadau | **Blwyddyn:** 6 |
| **Disgrifiad:** Mynegi barn am ddiwygiadau Ynys Môn. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Ymhelaethu ar y prif syniadau gyda rhesymau, gwybodaeth ac enghreifftiau cefnogol.<br>• Defnyddio paragraffau sydd â phrif syniadau a manylion perthynol i drefnu'r gwaith ysgrifennu. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Cynhyrchu llawysgrifen sy'n llifo ac sy'n ddarllenadwy.<br>• Dechrau defnyddio ystod o gystrawennau ac ymadroddion sy'n weddol gywir. |

Mae gan yr ysgrifennwr wybodaeth a dealltwriaeth amlwg o'r dasg. Mae'n gallu ymhelaethu ar y prif syniadau gan rhesymu ac enghreifftio, e.e. ' . . . y diwydiant gwlân yn bwysig i bobol Môn oherwydd . . . '. Mae'n nodi'n glir y broses o drin a chreu brethyn, e.e. 'yn gyntaf . . . ', 'yn olaf . . . '.

Trefnir y gwaith mewn paragraffau sy'n cynnwys manylion perthnasol, e.e. paragraff 1 yn sôn am y diwydiant gwlân, paragraff 2 yn disgrifio'r broses o wneud dillad.

Mae'r llawysgrifen yn llifo ac yn ddarllenadwy ar y cyfan. Nodir hefyd bod yr ysgrifennwr yn dechrau defnyddio ystod o gystrawennau yn gywir ac mae ganddo amryw o ymadroddion yn y gwaith, e.e. 'dod i ben' a 'ffordd o fyw'.

**Codi safonau ysgrifennu**

- Diwygio a gwella'r gwaith ysgrifennu gan drafod pam mae wedi gwneud newidiadau.
- Defnyddio ystod lawn o atalnodi er mwyn i'r darllenydd wneud synnwyr o frawddegau cymhleth, e.e. y defnydd o goma.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

## Llythrennedd
## Deunyddiau enghreifftiol

| | |
|---|---|
| **Pwnc: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalennau 83–86 o *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/ictnc/?lang=cy | |
| **Teitl:** Cyflwyniad PowerPoint – Argyfwng Ciwba | **Blwyddyn:** 6 |
| **Disgrifiad:** Cyflwyno gwybodaeth am gyfnod mewn hanes i weddill y dosbarth ar ffurf PowerPoint. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Defnyddio nodweddion ffurfiau penodol mewn modd priodol a'r rheiny'n glir ac yn berthnasol.<br>• Ysgrifennu deunyddiau mewn modd sy'n briodol ar gyfer tudalennau we. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Dechrau defnyddio ystod o gystrawennau sy'n weddol gywir.<br>• Sillafu terfyniadau lluosog yn gywir. |

Mae nodweddion a ffurf PowerPoint yn amlwg a chlir yn y dasg hon. Mae'r ysgrifennwr wedi creu tudalennau gwe sy'n adlewyrchu gwybodaeth a dealltwriaeth y pwnc dan sylw – Argyfwng Ciwba 1962.

Mae'r fformat, defnydd o luniau a'r tudalennau yn adlewyrchu meistrolaeth a ffurf. Defnyddia frawddegau syml a phwyntiau bwled i nodi yr hyn ddigwyddodd.

Mae'r gwaith yn dangos dealltwriaeth o ddefnyddio prif lythrennau i gychwyn brawddegau ac enwau priod ar gychwyn enw lle, e.e. 'Ciwba'. Mae'n deg nodi bod terfyniadau lluosog, e.e. 'milwyr', 'arfau', yn cael eu sillafu'n gywir

**Codi safonau ysgrifennu**

- Dechrau defnyddio'r amodol, e.e. 'os', 'pe bai', i gyfleu damcaniaeth neu bosibilrwydd, e.e. 'pe bai Rwsia heb droi nôl . . . ', 'Beth fyddai wedi digwydd os nad oedd Kennedy wedi llwyddo?'.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

| **Pwnc: Addysg grefyddol**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 80 o *Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 mewn addysg grefyddol: Canllawiau ychwanegol* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/religiouseducation/?skip=1&lang=cy | |
|---|---|
| **Teitl:** Erthygl | **Blwyddyn:** 9 |
| **Disgrifiad:** Creu erthygl yn nodi yr hyn allwn ddysgu o astudio crefyddau eraill. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Crynhoi a thrafod materion ac esbonio'n fanwl at y pwrpas.<br>• Dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol gan ddibynnu ar y ffurf a ddewiswyd. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Defnyddio brawddegau amrywiol gan ddefnyddio cystrawen gywir naturiol Gymraeg.<br>• Sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gywir yn rheolaidd yn y Gymraeg. |

Gwybodaeth amlwg a dealltwriaeth glir o ofynion y dasg. Mae'r ysgrifennwr yn defnyddio cystrawen gywir, naturiol Gymraeg gan grynhoi a thrafod y pwnc dan sylw yn gelfydd.

Gall gyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol, e.e. rheolau'r Qur'an.

Mae'n gallu sillafu termau pynciol yn gywir, e.e. 'cydraddoldeb', 'gweithredoedd' a 'diolchgar'. Gall hefyd dreiglo'n hyderus ac yn gywir.

**Codi safonau ysgrifennu**

- Pwyso a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â'r testun.
- Strwythuro darnau ysgrifennu hirach yn baragraffau ac adrannau.
- Defnyddio'r ystod lawn o atalnodau er mwyn egluro'r ystyr gan gynnwys yr hanner colon, colon a chromfachau.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

| **Pwnc: Daearyddiaeth**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 83 o *Daearyddiaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/geographync/?lang=cy | |
|---|---|
| **Teitl:** Cymhwyso gwybodaeth | **Blwyddyn:** 9 |
| **Disgrifiad:** Gallu esbonio rhai prosesau a sut mae pobl yn effeithio ar yr amgylchedd, e.e. ar y Maldives. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Gwella'i waith ysgrifennu drwy ei adolygu'n annibynnol ac ailddrafftio.<br>• Strwythuro brawddegau a threfnu gwaith ysgrifennu mewn amryw o ffurfiau. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Defnyddio brawddegau amrywiol gan ddefnyddio cystrawen gywir, naturiol Gymraeg.<br>• Sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gywir. |

Gofynnwyd i'r ysgrifennwr ail edrych ar waith yn ymwneud â'r Maldives a threfnu atebion i'r cwestiwn a ofynnwyd mewn modd clir a dealladwy, e.e. o dan benawdau penodol a phwyntiau bwled.

Aeth ati yn ogystal i fynegi barn ar ôl defnyddio'r cyfrifiadur fel teclyn drafftio ac ailddrafftio.

Mae'n da gweld bod yr ysgrifennwr yn cychwyn brawddegau mewn ffyrdd amrywiol, e.e. 'Sychu . . . ', 'Gadael . . . ', 'Rhoi . . . ', yn ogystal â sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gyson gywir, e.e. 'peiriannau', 'inswleiddio' a 'paneli'.

**Codi safonau ysgrifennu**

- Treiglo'n gywir gan ddatblygu'n gynyddol wybodaeth o'r treigladau, e.e. 'Gall gynghorau', 'Dyle gwledydd gosbi', 'trwy godi'.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

**Llythrennedd**
**Deunyddiau enghreifftiol**

<table>
<tr><td colspan="2">Pwnc: Hanes<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 73 o Hanes: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/historync/?lang=cy</td></tr>
<tr><td>Teitl: Ffynonellau</td><td>Blwyddyn: 9</td></tr>
<tr><td colspan="2">Disgrifiad: Defnyddio ffynonellau er mwyn dod o hyd i ffeithiau dros ddefnyddio’r bomb atomig dros Siapan.</td></tr>
<tr><td>Elfennau</td><td>Datganiadau disgwyliedig</td></tr>
<tr><td>Trefnu syniadau a gwybodaeth</td><td>• Pwyso a mesur tystiolaeth, ffynonellau, esboniadau a rhesymeg wrth ymdrin â thopig.<br>• Dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn wrthrychol.</td></tr>
<tr><td>Ysgrifennu’n gywir</td><td>• Ysgrifennu’n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a person y ferf yn gywir.<br>• Sillafu geiriau allweddol a thermau pynciol yn gywir yn rheolaidd yn y Gymraeg.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Mae gan yr ysgrifennwr ddealltwriaeth o sut i ddadansoddi cynnwys y ffynonellau drwy esbonio a rhesymu y pwyntiau a nodir mewn brawddegau syml. Cyflwynwyd ambell syniad yn wrthrychol, e.e. ‘Mae yna wahanol ddehongliadau achos mae pob un â barn.’<br><br>Mae’r ysgrifennwr yn defnyddio ar brydiau iaith ramadegol gywir ac yn defnyddio geiriau allweddol, e.e. ‘dehongliad’, ‘cyfrwng’, sydd wedi cael eu sillafu’n gywir.<br><br>Defnyddir termau pynciol, e.e. ‘Americanwyr’, ‘ffrwydrodd’, yn ddeallus a chywir i sicrhau gwybodaeth o’r ffeithiau.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Codi safonau ysgrifennu</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Strwythuro darnau ysgrifennu hirach (ar sail y ffynonellau) yn baragraffau ac adrannau.<br>• Defnyddio amrywiaeth o ffyrdd i gychwyn brawddegau, e.e. ‘Noda/sonia’r ffynhonnell gyntaf . . . ’.</td></tr>
</table>

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012 

# Llythrennedd
## Deunyddiau enghreifftiol

| | |
|---|---|
| **Pwnc: Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**<br>Gwaith enghreifftiol dysgwyr wedi ei gymryd o dudalen 118 o *Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3* (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008).<br>www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/arevisedcurriculumforwales/nationalcurriculum/ictnc/?lang=cy | |
| **Teitl:** Cyflwyniad PowerPoint – Atyniadau Ynys Môn | **Blwyddyn:** 9 |
| **Disgrifiad:** Defnyddio PowerPoint ar wefan y cyngor i nodi atyniadau'r ynys. | |

| **Elfennau** | **Datganiadau disgwyliedig** |
|---|---|
| Trefnu syniadau a gwybodaeth | • Cynllunio mewn modd priodol i ddatblygu'r ysgrifennu at ddiben a chynulleidfaoedd gwahanol.<br>• Defnyddio TGCh mewn ffyrdd gwahanol. |
| Ysgrifennu'n gywir | • Defnyddio brawddegau amrywiol gan ddefnyddio cystrawen gywir naturiol Gymraeg.<br>• Ysgrifennu'n ramadegol gywir. |

Mae'r ysgrifennwr yn amlwg wedi ymchwilio'n eang i'r testun sy'n cael ei gyflwyno, sef atyniadau niferus Ynys Môn i ymwelwyr.

Dengys gynnwys y cyflwyniad PowerPoint nodweddion a chynllun taflenni a gwefannau a gynhyrchwyd yn broffesiynol.

Mae'r iaith yn glir a choeth ac mae'r gystrawen yn rheolaidd gywir ac yn naturiol. Mae yna defnydd effeithiol ar brydiau o ansoddeiriau a phriod-ddulliau i ategu pwyntiau penodol.

**Codi safonau ysgrifennu**

- Dal ati i ddefnyddio ffurfiau cymharol ansoddeiriau cymariaethau a phriod-ddulliau yn effeithiol.

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012
WG14632